

DYN BRYMBO

Mae Dyn Brymbo yn arddangosyn pwysig yn ein prif oriel.

Mae'r esgyrn sydd ar ôl o'i ysgerbwd yn rhoi gwybodaeth i ni am Oes yr Efydd gynnar. Rydym wedi atodi ychydig o wybodaeth am Dyn Brymbo a gweithgareddau i chi roi cynnig arnyn nhw. Mi fasen ni wrth ein bodd gweld lluniau o'r pethau y byddwch yn eu creu felly cofiwch ein tagio ni!

Pwy oedd Dyn Brymbo?

Nid ydym yn gwybod! A dweud y gwir, ychydig iawn yr ydym yn ei wybod amdano. Mae popeth yr ydym yn ei wybod wedi cael ei ddarganfod o astudio ei esgyrn hynafol. Gall archeoleg ein helpu ni i lenwi rhai o'r bylchau yn ein gwybodaeth, er enghraifft sut oedd yr hinsawdd yn ystod Oes yr Efydd, pa anifeiliaid fyddai Dyn Brymbo wedi eu hela, pa fath o dŵls fyddai o wedi eu defnyddio a sut fyddai o wedi cadw'n gynnes.

Y Cefndir

Tua 4,000 o flynyddoedd yn ôl, yn ystod Oes yr Efydd gynnar, cafodd dyn ei gladdu gyda bicer a chylllell fflint mewn cist garreg ar allt lle mae Pentref Brymbo heddiw. Gorweddodd ei gist yn gudd yn y fan honno tan 1958 pan gafodd ei darganfod gan weithwyr oedd yn torri ffos y tu allan i 78 Cheshire View. Ymhen dyddiau roedd archeolegwyr wedi codi'r gist o'r ddaear ac wedi darganfod ysgerbwd ac eitemau wedi eu claddu gydag o. Cafodd yr esgyrn eu dadansoddi er mwyn darganfod oed,



rhyw a thaldrâ'r unigolyn. Wrth archwilio'r esgyrn hefyd gwelwyd ôl anaf ar y benglog, yn agos at linell y gwallt. Roedd yr anaf yn un siâp deigr yn sydd yn cyd-fynd â siâp blaen saeth o'r cyfnod hwnnw. Cafodd yr esgyrn eu dadansoddi eto yn 2001 a gwelwyd olion bwtsiera ar rai ohonyn nhw sydd yn dystiolaeth o'r arfer o dynnu cnawd oddi ar gyrff.

Biceri

Yn ystod Oes yr Efydd dechreuodd pobl gladdu'r meirw mewn beddi ar wahân gan roi pethau fel biceri yn y bedd efo nhw. Dechreuodd yr arfer o gladdu pobl efo bicer yn Ewrop tua 4,500 o flynyddoedd yn ôl ac ymhen amser daeth yr arfer drosodd i Brydain. Roedd y biceri siâp cloch yn cael eu gwneud gyda llaw a'u rhoi mewn coelcerth i galedu cyn eu haddurno gyda gwahanol batrymau – roedd y patrymau a'r arddulliau addurno yn newid dros amser. Mae Archeolegwyr wedi dyddio bicer Dyn Brymbo rhwng tua 1900 - 2200BC ac ar ôl dadansoddi ei gynnwys darganfuwyd ei fod unwaith yn cynnwys math o gwrw! I ddysgu mwy am y theori Biceri presennol cliciwch ar y ddolen hon:
<https://www.nhm.ac.uk/discover/news/2018/february/the-beaker-people-a-new-population-for-ancient-britain.html>

Efydd

Mae efydd yn gymysgedd o 10% tun a 90% copr. Yr enw ar gymysgedd fel hon yw aloi. Roedd digonedd o dun a chopr ar gael ym



GWEITHGAREDDAU

Mhrydain - roedd copr yn cael ei gloddio'n lleol ym Mwynglawdd y Gogarth yn Llandudno a thun yn cael ei gloddio ymhellach i fwrdd yng Nghernyw. Mae aloi efydd yn galetach na'r ddau fetel y mae'n gyfuniad ohonyn nhw gan olygu ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob math o arfau fel cleddyfau a bwyell Gweithgareddau - Mi fasen ni wrth ein boddau cael gwybod sut y cafodd Dyn Brymbo ei saethu yn ei ben gyda saeth, ond mewn gwirionedd chawn ni byth wybod pam.

Allwch chi helpu?

Ysgrifennwch **gerdd** neu **stori**, neu **gwnewch gartŵn** am Ddyn Brymbo.

Cliciwch ar y ddolen hon i ddysgu mwy:

<https://www.wrexhamheritage.wales/brymbo-man>

YSGRIFENNWCH ERTHYGL BAPUR NEWYDD

Ysgrifennwch erthygl bapur newydd am sut y daethpwyd o hyd i Ddyn Brymbo.



SGLODIO FFLINT

Os oes gynnwch chi dalp neu ddarn bach o sebon sbâr, rhwch gynnig ar 'sglodio fflint'. Defnyddiwch gyllell fwyta i 'sglodio' neu dorri'r sebon i wneud cyllell fel un Dyn Brymbo. Mae 'na fideos ar 'sglodio fflint (flint knapping) ar You Tube - rydym ni'n argymhell un English Heritage o Stonehenge.

(REU FICER

Gallwch ddefnyddio clai, toes halen neu unrhyw beth arall sydd gennych yn y cartref i greu bicer 2 neu 3 dimensiwn. Cofiwch addurno eich bicer!

ARCH-ARWR!

Ychydig o flynyddoedd yn ôl fe wnaeth Neil Edwards (artist comig) droi Dyn Brymbo yn arch-arwr. Arch-bwerau Dyn Brymbo oedd ei gryfder, ei berlysiau hud oedd yn gwella pobl sâl a'r bicer hud oedd yn ei helpu i deithio drwy amser. Pa arch-bwerau fydddech chi'n eu rhoi iddo fo?

ENWAU ANATOME GOL

Da chi'n gwybod yr enwau anatomegol am yr esgyrn yn eich ysgerbwd chi? Labelwch eich corff eich hun neu printiwch dempled o ysgerbwd. Dyma'r enwau anatomegol am rai darnau o'r corff i'ch rhoi chi ar ben ffordd:

Pen - Penglog

Gên Isaf - Mandibl

Asgwrn Cefn - Fertebr

Esgyrn Darn Isaf Y Fraich
- Radiws Ac Wlna

Esgyrn Darn Uchaf Y
Fraith - Hwmerws

Asgwrn Y Glun - Ffemwr/
Morddwyd

Pen-Glin - Pelen Pen-Lin

Asgwrn Y Frest -
Sternwm

Esgyrn Darn Isaf Y Goes -
Tibwla A Ffibwla

